Factsheet: What We Do - Children's Services

Mae angen rhyw fath o help ar bob teulu ar adegau. Bod yn rhiant yw'r swydd anoddaf y bydd un-rhyw un erioed yn ei wneud. Prif nod y Gwasanaethau Plant yw cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel. Mae llawer o gefnogaeth ar gael i chi ac rydym wedi esbonio sut mae hyn yn edrych isod a sut y gallwch gysylltu â ni.

Cyngor a'r Camau Nesaf

Os ydych chi'n teimlo bod angen cymorth pellach arnoch neu os hoffech siarad trwy broblem gydag aelod o'n tîm, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio 01685 725000 a gofyn i gael siarad â rhywun o'r Tîm Hwb Cymorth Cynnar.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn ffonio?

Os byddwch chi'n ein ffonio ni, byddwch yn siarad ag aelod o'n tîm a byddwch yn cael y cyfle i siarad am eich problem neu bryder. Byddwn yn gwran-do arnoch chi ac yn eich helpu i ddod o hyd i'r ffordd orau i'ch cefnogi. Gallai hyn gynnwys eich cyfeirio at wybodaeth leol neu at wasanaeth mwy perthnasol yr ydym yn teimlo allai helpu.

Os oes gennych gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac yn ffonio ein tîm, byddwn yn cynnal sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gyda chi. Os nad oes gennych gyfri-foldeb rhiant, ond ein bod yn teimlo y byddai sgwrs bellach yn ddefnyddiol, bydd y rheolwyr yn penderfynu a gall sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' ddigwydd yn nes ymlaen.

Beth yw sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'?

Yn ystod sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' bydd aelod o'n tîm yn siarad â rhieni sydd â chyfrifoldeb rhieni ac yn cynnal sgwrs i ddarganfod pam eu bod wedi galw. Byddwn yn cysylltu ag aelodau perthnasol o'r teulu i'n helpu ni i greu darlun ehangach o'r teulu a, gyda'ch caniatâd, byddwn hefyd yn siarad ag unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol, fel yr heddlu, iechyd ac addysg, i'n helpu i weithio allan y ffordd orau i'ch cefnogi. Byddwn yn penderfynu a oes rôl arall ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol neu a allwch gael eich cefnogi trwy gymorth arall sydd ar gael.

Beth sy'n digwydd os nad oes gennyf gyfrifoldeb rhieni?

Os nad oes gennych gyfrifoldeb rhieni ond eich bod yn dal i fod yn rhan weithredol o fywyd y plentyn a bod gennych bryderon, byddwn yn cymryd eich manylion a bydd uwch aelod o'n tîm yn penderfynu a oes angen cynnal sgwrs 'Beth sy'n bwysig'. Os penderfynir bod angen sgwrs, bydd y sgwrs honno'n digwydd a byddwn yn penderfynu a oes angen cymorth pellach gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Beth sy'n digwydd ar ôl y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'?

Ar ôl i ni gael sgwrs gyda chi a nodi'r broblem, yn ogystal â'r pethau sy'n bwysig i chi, byddwn yn gweithio gyda chi i gynllunio eich camau nesaf. Mae sawl math o gymorth o fewn Gwasanaethau Plant, ac o fewn y gymuned, a byddwn yn gweithio gyda chi i ddarganfod pa wasanaeth fyddai'n diwallu eich anghenion orau. Os oes angen, gallwn wei-thio gyda chi i'ch helpu chi i gael gafael ar y gwasanaeth cywir i chi. Gallai hyn gynnwys eich atgyfeirio am asesiad pellach (lle cynhelir sgwrs fanylach a gellir cynnig cymorth pellach).